student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Datganiad Diogelu Data ar gyfer Myfyrwyr (DPS)

Mae'r DPS hwn yn nodi pwy fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch chi, eich partner neu'ch perthnasau yn ei darparu mewn perthynas â'ch cais am gyllid i fyfyrwyr (eich gwybodaeth bersonol), a sut y byddant yn ei defnyddio.

Ac eithrio mewn perthynas ag unrhyw adran o DPS y nodir ei bod yn berthnasol i gwsmeriaid Addysg Uwch (AU) neu Addysg Bellach (AB) yn unig, bydd DPS yn berthnasol i gwsmeriaid AU ac AB.

Defnyddir eich gwybodaeth bersonol er mwyn prosesu'ch cais am gyllid i fyfyrwyr. Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo swyddogaethau penodol y maent yn ymwneud â cheisiadau am gyllid i fyfyrwyr i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig (SLC).

Bydd SLC yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol:

- er mwyn penderfynu a ydych yn gymwys i gael cyllid i fyfyrwyr, ac os felly, swm uchaf y cymorth ariannol yr ydych yn gymwys i'w gael; a/neu
- er mwyn talu cymorth i fyfyrwyr i chi.

Mae Gweinidogion Cymru a/neu SLC (pan fo hynny'n berthnasol) yn rheolwyr data ar y cyd ar gyfer eich gwybodaeth bersonol. Os hoffech weld eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch ag SLC, a byddant yn gallu eich cynghori mewn perthynas â chais gwrthrych am wybodaeth.

Mae SLC yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch chi, eich partner a'ch perthnasau er mwyn:

- caniatáu i'r broses o asesu a thalu cyllid i fyfyrwyr i gael ei harchwilio;
- cynnal neu ddatblygu systemau a phrosesau; a
- rhoi gwasanaethau cwsmeriaid i chi, ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gennych a diweddaru'r wybodaeth am eich cyfrif.

Caiff cywirdeb yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu ei archwilio ac fe'i defnyddir i ddarganfod ac atal twyll a/neu wyngalchu arian. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd SLC yn cael gwybodaeth gan a/neu'n rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau neu unigolion eraill megis, er enghraifft, ond heb ei gyfyngu i:

- yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) er mwyn cadarnhau'ch rhif Yswiriant Gwladol a'ch manylion personol, gan gynnwys lefel unrhyw fudd-daliadau os yw hynny'n briodol;
- y Swyddfa Gartref gan gynnwys Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi (HMPO) i gadarnhau manylion eich pasbort os ydych chi wedi eu darparu;
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) er mwyn cadarnhau lefelau incwm a ddatgelwyd (cwsmeriaid AU yn unig) ac er mwyn cadarnhau eich rhif Yswiriant Gwladol i hwyluso'r broses o gasglu ad-daliadau benthyciad. Efallai y bydd HMRC wedi rhannu mynediad i'r wybodaeth am gyfrif eich benthyciad i helpu SLC i gasglu ad-daliadau benthyciad;
- Efallai y bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn gofyn i SLC ddarparu cadarnhad o'ch cymhwystra i gael benthyciad er mwyn eich helpu i gael rhif Yswiriant Gwladol;
- os ydych chi wedi gwneud cais am gymorth i dalu am ofal plant (cwsmeriaid AU yn unig), bydd SLC yn dilysu lefel y taliadau a wnaethpwyd gyda'r darparwr gofal plant, ac efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth gydag eraill i ddilysu cywirdeb yr holl wybodaeth a ddarparwyd; a/neu
- gyrff eraill gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, Swyddfa'r Cofrestryddion Cyffredinol, Asiantaeth Fisâu a Mewnfudo y DU, trydydd partïon y maent wedi eu contractio i gynnal archwiliadau o fanylion hunaniaeth, archwiliadau manylion preswylio ac archwiliadau incwm, darparwyr cyfleustodau, HMRC, HMPO, asiantaethau atal twyll ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith megis yr Heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol er mwyn cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ac i atal a darganfod twyll yn y broses o ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr ac yn ehangach.

Rhaid i SLC gadw gwybodaeth a ddarparir mewn perthynas â'ch cais er mwyn trin taliadau, pan fo hynny'n briodol, ac SLC yw rheolwr y data ar gyfer yr wybodaeth hon.

Yn ogystal, efallai y bydd SLC a sefydliadau eraill yn troi at ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i atal twyll a gwyngalchu arian, er enghraifft:

- wrth archwilio manylion ar geisiadau am gredyd a chyfleusterau yn ymwneud â chredyd a chyfleusterau eraill;
- wrth reoli cyfrifon neu gyfleusterau credyd neu y maent yn ymwneud â chredyd;
- wrth adennill dyled;
- wrth archwilio manylion am gynigion a hawliadau ar gyfer pob math o yswiriant; a/neu
- wrth archwilio manylion ymgeiswyr am swydd a chyflogeion.

Os hoffech gael manylion yr asiantaethau atal twyll perthnasol, cysylltwch ag SLC yn Counter Fraud Services, Student Loans Company, 100 Bothwell Street, Glasgow, G2 7JD.

Yn ogystal, efallai y bydd SLC, gyda sefydliadau eraill, yn troi at ac yn defnyddio'r wybodaeth a gofnodir gan asiantaethau atal twyll mewn gwledydd eraill.

Os byddwch yn torri unrhyw amod(au) sy'n berthnasol i ddarparu cyllid i fyfyrwyr i chi, efallai y bydd SLC yn rhannu gwybodaeth amdanoch a'ch cyfrif gydag unrhyw berson neu sefydliad, y gallent gynorthwyo SLC i ddod o hyd i chi a/neu i adennill unrhyw symiau benthyciad heb eu talu.

Bydd eich prifysgol, eich coleg neu'ch sefydliad hyfforddi yn cael gwybodaeth gan SLC er mwyn i SLC allu:

- talu unrhyw grant ffioedd iddo (Cwsmeriaid AU yn unig) neu fenthyciad yr ydych yn gymwys i'w gael; a
- chadarnhau manylion y cwrs yr ydych yn ei astudio.

Efallai y bydd eich prifysgol neu'ch coleg wedi rhannu mynediad i'ch cais a gwybodaeth am eich cyfrif at y dibenion hyn yn y dyfodol.

(Cwsmeriaid AU yn unig) Yn ogystal, efallai y bydd eich prifysgol neu goleg yn gofyn am wybodaeth y byddwch yn ei darparu mewn perthynas â'ch cais am gyllid i fyfyrwyr megis eich manylion personol, eich manylion ariannol a manylion eich cwrs neu wybodaeth am eich cymhwystra i gael cyllid i fyfyrwyr, at ddibenion gweinyddiaeth bwrsariaeth gan SLC neu Weinidogion Cymru. Dim ond pan fyddwch chi a (phan fo hynny'n berthnasol) unrhyw unigolion a enwir ar eich cais sy'n darparu gwybodaeth ariannol, wedi penderfynu peidio optio allan o roi caniatâd i rannu'r wybodaeth at ddibenion gweinyddu bwrsariaeth, y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu.

(Cwsmeriaid AU yn unig) Yn yr achos hwn, y brifysgol neu'r coleg fydd y rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth a byddant yn ei defnyddio i asesu cymhwystra ac i dalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth i chi y gallech fod yn gymwys i'w chael. Os hoffech weld yr wybodaeth hon, cysylltwch â'ch prifysgol neu'ch coleg.

(Cwsmeriaid AU yn unig) Os ydych yn astudio cwrs a gymeradwywyd gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol (GSCC), Cyngor Gofal Cymru (CGC) neu Gyngor Gofal Gogledd Iwerddon, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth i dalu eich ffioedd dysgu neu i gael bwrsariaeth gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, CGC neu'r Adran Iechyd, os ydych yn astudio yng Ngogledd Iwerddon. Os byddwch yn gwneud cais am gymorth ariannol gan un o'r sefydliadau hyn, gallai SLC rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch ffioedd dysgu/cyfraniad personol a'ch presenoldeb yn y brifysgol, y coleg neu'r sefydliad hyfforddiant Addysg Bellach neu Uwch. Dim ond yr wybodaeth bersonol sy'n ofynnol i asesu cymhwystra i gael cyllid fydd yn cael ei throsglwyddo i'r sefydliad perthnasol.

(Cwsmeriaid AB yn unig) Gall gwybodaeth y byddwch chi, eich partner, eich rhiant/gwarcheidwad neu'ch perthnasau (sy'n cynnwys eich llys-rieni hefyd i osgoi unrhyw amheuaeth) yn ei darparu, gael ei defnyddioar gyfer ceisiadau yn y dyfodol, oni bai y rhoddir cyfarwyddyd fel arall i SLC.

Bydd modd i Weinidogion Cymru droi at wybodaeth am eich cyfrif i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid i chi ac fe allent ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych i fonitro perfformiad y system cyllid i fyfyrwyr ac i ddatblygu polisïau neu fentrau yn y dyfodol. Gall Gweinidogion Cymru ac SLC rannu data gyda thrydydd partïon at ddibenion ymchwil ac ystadegol. Bydd unrhyw allbwn a gyhoeddir yn ddienw ac ni fydd yn nodi manylion unrhyw unigolion.

(Cwsmeriaid AU yn unig) Wrth gyflawni swyddogaethau statudol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) mewn perthynas â chyllido addysg, gallai CCAUC a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), y mae'n cyflawni swyddogaethau penodol ar ran CCAUC, ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd at ddibenion dadansoddi ystadegol. Ni fydd HESA a CCAUC yn nodi manylion unrhyw unigolion mewn unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i SLC a'ch prifysgol neu goleg ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus y maent yn eu trin ac fe allent ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych chi er mwyn darganfod ac atal twyll. Yn ogystal, efallai y byddant yn rhannu'r wybodaeth, at yr un dibenion, gyda sefydliadau eraill y maent yn trin cronfeydd cyhoeddus.

Efallai y bydd SLC yn cymharu'r wybodaeth sydd ganddo ar ei systemau gyda'r wybodaeth mewn systemau a ddefnyddir gan sefydliadau eraill, gan gynnwys HMRC, y Swyddfa Gartref (gan gynnwys HMPO, yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo a'r Gwasanaeth Carchardai), Prif Weithredwr Cyllid Sgiliau, y Post Brenhinol a thrydydd partïon yr ydym wedi eu contractio er mwyn cynnal archwiliadau o fanylion adnabod a manylion incwm. Mae hyn yn helpu SLC i wella cywirdeb yr wybodaeth sydd ganddo ac mae'n helpu i leihau twyll.

(Cwsmeriaid AU yn unig) Gallwch droi at eich cyfrif ar-lein yn ddiogel trwy'r Rhyngrwyd.